

Arolygiad o Bractis Orthodontig (Ile rhoddwyd rhybudd)

**Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan, Newport
Orthodontic Centre**

Dyddiad yr Arolygiad: 11 Ionawr 2017

Dyddiad Cyhoeddi: 12 Ebrill 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Cyd-destun.....	3
3.	Crynodeb	4
4.	Canfyddiadau	5
	Ansawdd Profiad y Claf	5
	Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol.....	8
	Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	14
5.	Y Camau Nesaf.....	16
6.	Methodoleg	17
	Atodiad A.....	19

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cynhaliodd AGIC arolygiad o Newport Orthodontic Centre yn 28 Heol Parc Cleidda, Casnewydd, NP20 4PA, ar 11 Ionawr 2017.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd Newport Orthodontic Centre yn bodloni'r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau perthnasol eraill.

Cynhelir arolygiadau gwasanaethau orthodontig ar ôl rhoi rhybudd, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd Profiad y Claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr i sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.
- Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol – Rydym yn ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r diwylliant yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Rydym ni hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn unol â safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

2. Cyd-destun

Mae Newport Orthodontic Centre yn darparu gwasanaethau ar gyfer cleifion yn ardal Casnewydd de Cymru. Mae'r practis yn rhan o wasanaethau orthodontig a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae Newport Orthodontic Centre yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys pedwar orthodonydd, tair nyrs, un therapydd dan hyfforddiant, un cydlynnydd triniaethau, dau dderbynnydd, ac un rheolwr practis.

Darperir ystod o wasanaethau orthodontig y GIG a gwasanaethau orthodontig preifat.

3. Crynodeb

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod Newport Orthodontic Centre yn darparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Canfuom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir.
- Roedd digon o gyfarpar yn y cyfleusterau clinigol ac roeddent i'w gweld yn lân ac yn daclus.
- Roedd offerynnau deintyddol yn cael eu glanhau a'u sterileiddio yn y modd priodol.
- Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n hapus yn eu swyddi ac yn deall eu cyfrifoldebau.
- Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael digon o gefnogaeth gan uwch staff y practis.

Rydym yn argymhell y gallai'r practis wella'r canlynol:

- Roedd angen gwirio'r cyffuriau a'r offer a ddefnyddir mewn achos brys yn fwy aml er mwyn sicrhau eu bod ar gael a'u bod yn ddiogel i'w defnyddio mewn achos o argyfwng gyda chlaf (llewygu).
- Roedd angen i'r gwiriadau ar gyfer yr offer sterileiddio fod yn fwy manwl.
- Roedd angen i orthodontyddion wella agweddau ar y ffordd roeddent yn cadw cofnodion.

4. Canfyddiadau

Ansawdd Profiad y Claf

Gwelsom fod cleifion a oedd yn ymweld â'r practis yn cael eu trin ag urddas, parch a charedigrwydd gan dîm y practis. Gwnaeth cleifion a oedd wedi gwneud sylwadau yn ein holiaduron nodi eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth roeddent wedi'i dderbyn.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael sylwadau ar y gwasanaethau deintyddol a oedd yn cael eu darparu. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys:

'Rydw i wedi cael croeso, ac wedi teimlo'n gyfforddus bob tro. Caiff pob triniaeth ei hesbonio'n drylwyr i mi gan fy mod yn glaf nerfus. Yr orthodontydd gorau yn y cyffiniau!'

'Rydym ni bob amser wedi cael profiadau cadarnhaol yma. Roedd fy merch yn nerfus ar y dechrau, ond gwnaeth y staff i ni deimlo'n gartrefol a dydyn ni ddim wedi cael unrhyw broblemau o gwbl.'

'Esboniwyd y driniaeth i mi'n well nag mewn unrhyw bractis deintyddol blaenorol. Dechreuwyd ar y driniaeth ar unwaith, ac rwy'n hapus iawn gyda'r canlyniadau.'

Gofal gydag urddas

Gwelsom staff yn siarad â chleifion mewn modd cyfeillgar, urddasol a phroffesiynol. Roedd yn ymddangos bod y staff yn dîm cyfeillgar, a gwelsom ni ymadweithio moesgar a chwrtais gyda'r cleifion.

Roedd yr holiaduron cleifion a gwblhawyd yn dangos bod cleifion yn fodlon ar lefel y gofal a thriniaeth a ddarperir ar eu cyfer. Nododd pob claf a ddychwelodd holiaduron wedi'u cwblhau wrthym ei fod wedi cael croeso gan staff presennol y practis. Roedd rhai cleifion hefyd wedi ychwanegu eu sylwadau cadarnhaol eu hunain, a oedd yn ymwneud ag agwedd a dulliau tîm y practis.

Roedd y practis yn darparu amrywiaeth o driniaethau orthodontig preifat a thriniaethau orthodontig y GIG. Roedd gwybodaeth am brisiau triniaethau orthodontig preifat ar gael i'w gweld yn y man aros. Golygai hyn fod gwybodaeth ar gael i gleifion preifat ynglŷn â faint y gallai eu triniaeth ei gostio. Nid oedd disgwyl i gleifion a oedd yn gymwys i gael triniaeth orthodontig y GIG dalu am eu triniaeth.

Roedd taflenni gwybodaeth ar gael i gleifion a oedd yn ymwneud yn benodol â'r driniaeth a dderbyniwyd. Roedd gwybodaeth gyffredinol am y practis ar gael ar wefan y practis.

Gofal amserol

Canfuom fod y practis yn gwneud ymdrechion i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Gwnaeth y cleifion hynny a oedd wedi profi oedi ddweud wrthym mai dim ond ychydig iawn yr aethpwyd dros yr amser. Disgrifiodd staff y broses ar gyfer hysbysu cleifion am unrhyw oedi i amser eu hapwyntiad.

Roedd rhif ffôn cyswllt y tu allan i oriau ar gael i gleifion pe bai angen triniaeth orthodontig arnynt ar frys. Roedd y rhif ffôn ar gael drwy nifer o wahanol ffyrdd, gan gynnwys wedi'i arddangos yn glir ger drws blaen y practis, ar neges peiriant ateb y practis, ac ar wefan y practis.

Cadw'n iach

Gwelsom fod gwybodaeth am hyrwyddo iechyd ar gael i gleifion, er mwyn helpu i hyrwyddo'r angen iddynt ofalu am eu hylendid ac iechyd y geg eu hunain.

Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn teimlo eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth orthodontig. Ychwanegodd rhai cleifion eu sylwadau cadarnhaol eu hunain ynghylch y wybodaeth a ddarparwyd iddynt gan yr orthodontyddion.

Gofal unigol

Ceir mynediad i'r practis trwy fynd i fyny un gris. Y tu mewn, roedd dwy ystafell driniaeth ar y llawr daear ac un ar y llawr cyntaf. Dywedwyd wrthym y byddai cleifion ag anawsterau symudedd yn cael cynnig cymorth gyda'r gris ac yn cael cynnig apwyntiadau yn un o'r ystafelloedd triniaeth ar y llawr daear.

Roedd gan y practis *flwch awgrymiadau cleifion* yn y dderbynfa, a oedd yn caniatáu i gleifion roi adborth ad hoc a dienw ynglŷn â'r gofal a'r driniaeth a ddarparwyd iddynt. Gwelsom fod holiaduron cleifion wedi'u cwblhau yn 2013 a 2016, a bod y practis wedi dadansoddi'r canlyniadau. Gwnaethom argymhell i'r practis efallai y bydd yn dymuno ystyried proses lle gellir casglu adborth gan gleifion yn fwy rheolaidd. Cytunodd y rheolwr practis i ystyried hyn.

Gwelsom fod gan y practis weithdrefn gwyno ysgrifenedig. Roedd gwybodaeth i gleifion am sut i leisio pryder (cwyn) wedi'i harddangos yn y dderbynfa. Gwnaethom argymhell y dylid diweddarau'r broses gwyno ar gyfer cleifion y GIG i gynnwys manylion cyswllt y bwrdd iechyd, yn unol â gweithdrefn GIG Cymru 'Gweithio i Wella'. Cytunodd y practis i wneud hyn. Gwelsom fod y practis wedi cadw cofnodion manwl o'r cwynion a dderbyniwyd, yn ysgrifenedig ac ar lafar,

ynghyd â manylion y camau a gymerwyd mewn perthynas â phob cwyn. Roedd hyn yn caniatáu i'r practis adolygu pryderon, cymryd camau i ddatrys problemau, a rhoi adborth i gleifion.

Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol

Gwelsom fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Gwelsom fod adeilad y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, y tu mewn a'r tu allan.

Dangoswyd proses drwyadl ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol. Gwelsom fod angen gwneud gwelliannau i'r broses cofnodi archwiliadau ar gyfer y cyfarpar sterileiddio.

Er bod y cyffuriau a'r offer a ddefnyddir mewn achos brys yn cael eu gwirio, gwelsom fod angen gwneud hyn yn fwy aml.

Gwelsom fod angen i'r practis gyflwyno proses drylwyr ar gyfer archwilio clinigol.

Gofal diogel

Yn gyffredinol, gwelsom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld ag ef.

Roedd yn ymddangos bod yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda – y tu mewn a'r tu allan. Yn ystod taith o amgylch yr adeilad, fe welsom fod pob ardal yn lân ac yn daclus heb unrhyw beryglon amlwg. Gwelsom fod offer diogelwch rhag tân ar gael mewn gwahanol fannau o gwmpas y practis. Gwelsom dystiolaeth bod gan y practis contract ar waith i wasanaethu'r offer bob blwyddyn i sicrhau eu bod yn gweithio'n iawn.

Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy wedi cael eu cynnal ar offer trydanol y practis o fewn y 12 mis diwethaf, i sicrhau bod yr offer yn ddiogel i'w defnyddio.

Roedd contract ar waith ar gyfer symud a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a gynhyrchid gan y practis yn ddiogel. Gwelsom fod gwastraff peryglus yn cael ei storio tu allan i adeilad y practis wrth iddo aros i gael ei gasglu gan gwmni'r contractwr. Roedd gwastraff nad yw'n beryglus (gwastraff domestig) yn cael ei gasglu trwy drefniadau gyda'r cyngor sir lleol.

Gwnaethom edrych ar yr holl gyfleusterau clinigol (ystafelloedd triniaeth) yn y practis. Roedd y rhain yn lân ac yn daclus. Gwnaethom weld bod angen selio'r gorchudd llawr mewn dwy ystafell driniaeth rhwng y cypyrddau a'r waliau mewn rhai mannau er mwyn caniatáu glanhau effeithiol i leihau croes-heintio. Roedd

angen symud carped o un rhan o ystafell driniaeth a gosod gorchudd llawr priodol yn ei le yn unol â'r safonau a nodir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1).¹ Cytunodd y practis i weithredu ar y materion hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i berchennog y practis sicrhau bod y gorchudd llawr yn cael ei selio rhwng y cypyrddau a'r walïau (neu wneud trefniadau priodol eraill) i atal dŵr, llwch a sbwriel rhag casglu yn y rhan o'r llawr sydd heb ei selio mewn dwy ystafell driniaeth.

Dylai perchennog y practis osod carped newydd yn yr ystafell driniaeth yn unol â safonau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1).

Roedd ystafell ddadheintio wedi'i gosod yn y practis a oedd yn bodloni'r egwyddorion a nodwyd yn nogfen polisi a chyfarwyddyd Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1). Roedd yr offer dadheintio yn ymddangos mewn cyflwr da yn ôl pob golwg. Roedd dau beiriant awtoclaf² yn cael eu defnyddio ac roedd tystysgrifau gosod/archwilio ar gael a oedd yn dangos eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Gwelsom fod gwiriadau dyddiol yn cael eu cynnal a bod llyfrau cofnodion yn cael eu cadw ar beiriannau awtoclaf, fel yr argymhellir gan Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1). Roedd y practis yn defnyddio bath uwchsonig³ i lanhau offer deintyddol cyn sterileiddio, a gwelsom ddogfennau'n dangos bod yr offer yn ddiogel i'w defnyddio. Dywedodd y staff wrthym am y gwiriadau dyddiol a wnaed ar y peiriant uwchsonig, ond nid oedd y practis yn cofnodi'r gwiriadau a wnaed na'u canlyniadau. Gwnaethom hysbysu'r rheolwr practis o'n canfyddiadau, a rhoddodd sicrwydd ar lafar y byddai camau cywirol yn cael eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella

¹ Mae [Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 \(Diwygiad 1\)](#) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ynglŷn â dadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

² Siambwr pwysedd yw peiriant awtoclaf a ddefnyddir i sterileiddio offer a chyflenwadau trwy ofodi ager dirlawn pwysedd uchel arnynt.

³ Dyfais sy'n trosglwyddo tonnau sain ynni uchel ac amledd uchel i gynhwysydd llawn hylif, sy'n cael ei defnyddio i gael gwared ar ddyddodion o declynnau a chyfarpar.

Rhaid i'r practis wneud trefniadau priodol i sicrhau bod y staff yn cydymffurfio â'r canllawiau yn nogfen ganllaw Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1) o ran:

- ***cynnal llyfrau cofnodion o'r profion a'r gweithdrefnau ar y peiriant uwchsonig***

Gwnaeth y staff ddangos proses ddadheintio drylwyr, a gwelsom dystysgrifau i ddangos bod y staff nyrsio wedi mynychu hyfforddiant ar ddadheintio.

Roedd yr offer yn cael eu cadw mewn bagiau wedi'u selio er mwyn atal croesheintio. Roedd y dyddiadau ar gyfer defnyddio neu ailbrosesu offer (eu glanhau a'u sterileiddio) wedi'u cofnodi ar y pecynnau yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad).

Gwelsom fod y practis wedi cynnal archwiliad rheoli heintiau ddiwethaf yn 2014 i nodi meysydd i'w gwella a'u datblygu fel rhan o'r gwaith monitro cyffredinol ar gyfer sicrhau ansawdd. Gwnaethom argymhell y byddai'r practis o bosibl yn dymuno ystyried cynnal archwiliad o'r fath yn fwy rheolaidd er mwyn sicrhau bod y practis yn cydymffurfio'n llawn â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1).

Gwelsom fod offer a chyffuriau ar gael i'w defnyddio pe bai argyfwng gyda chlaf (llewygu/cwypmo). Gwelsom hefyd gofnodion a oedd yn dangos bod y cyffuriau a'r offer yn cael eu gwirio bob mis. Gwnaethom argymhell i berchennog y practis y dylid cynnal archwiliadau bob wythnos ar gyfer y cyffuriau a'r offer a ddefnyddir mewn achosion brys yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (DU).⁴ Cadarnhaodd y rheolwr practis y byddai hyn yn cael ei roi ar waith ar unwaith. Gwelsom fod dyddiad rhai o'r offer a ddefnyddir mewn achosion brys, yn benodol llwybrau anadlu, wedi mynd heibio. Gwnaethom hysbysu'r rheolwr practis o'n canfyddiadau, a rhoddodd sicrwydd ar lafar y byddai camau cywirol yn cael eu cymryd. Ar ddiwrnod ein harolygiad, archebwyd yr offer perthnasol a chawsant eu casglu'r un diwrnod.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod:

⁴ [Mae'r Cyngor Dadebru \(DU\)](#) yn bodoli i hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, ac i gyfrannu at achub bywydau trwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil a chydweithredu.

- ***pecyn llawn a ddefnyddir mewn achos brys ar gael yn y practis bob amser***
- ***gwiriadau rheolaidd yn cael eu gwneud ar gyfer yr offer a ddefnyddir mewn achos brys***

Mae hyn yn unol â'r safonau sicrhau ansawdd a nodir gan y Cyngor Dadebru (DU).

Nid oedd gan y practis ddiffibriliwr allanol awtomatig (AED) ar y safle i'w ddefnyddio pe bai argyfwng claf. Dywedwyd wrthym fod dau ddiffibriliwr allanol awtomatig ar gael mewn canolfan practis deintyddol a gofal iechyd gerllaw, a bod y practis yn cael eu defnyddio pe bai argyfwng. Yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (DU), gwnaethom argymhell y dylai'r practis gael mynediad uniongyrchol i ddiffibriliwr allanol awtomatig ar y safle i'w ddefnyddio mewn achos o argyfwng. Cytunodd y practis i wneud hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis wneud trefniadau addas er mwyn sicrhau bod diffibriliwr allanol awtomatig ar gael i'r staff a'u bod yn gallu ei ddefnyddio'n ddiogel pan fo hynny'n ofynnol yn ystod argyfwng.

Gwelsom gofnodion hyfforddi a oedd yn dangos bod y staff wedi diweddarau eu hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd.

Gwelsom fod yr Ymgynghorydd Amddiffyn rhag Ymbelydredd wrthi'n diweddarau rhai dogfennau a gwybodaeth ynglŷn â defnyddio'r offer radiograffig (pelydr-X) mewn modd diogel. Roedd y practis yn dal i ddisgwyl y Ffeil Amddiffyn rhag Ymbelydredd orffenedig gan yr Ymgynghorydd Amddiffyn rhag Ymbelydredd. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis sicrhau bod unrhyw newidiadau a/neu argymhellion yn cael eu hystyried a'u trin yn briodol ar ôl derbyn y ffeil orffenedig gan yr Ymgynghorydd Amddiffyn rhag Ymbelydredd. Cytunodd y practis i wneud hyn. Ni welsom lythyr at yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn eu hysbysu o'r defnydd o offer radiograffig ar y safle. Hysbyswyd y rheolwr practis o'r canfyddiad hwn a chytunodd i roi gwybod i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis hysbysu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch o'r defnydd o offer radiograffig ar y safle.

Gwelsom dystysgrif a oedd yn dangos bod y peiriant pelydr-X wedi'i gynnal a'i gadw'n briodol i sicrhau ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio. Gwelsom dystysgrifau hyfforddi hefyd a oedd yn dangos bod y staff clinigol perthnasol wedi diweddarau

eu hyfforddiant ymbelydredd ìoneiddio, a'u bod yn bodloni'r canllawiau a amlinellir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Gwelsom fod archwiliadau o ansawdd delweddau pelydr-X wedi cael eu cwblhau'n rheolaidd fel rhan o'r gwaith monitro ar gyfer sicrhau ansawdd. Mae'r archwiliadau hyn yn nodi problemau posibl wrth gynnal sganiau pelydr-X, ac yn dangos lle y dylid gwneud gwelliannau os oes angen.

Roedd gweithdrefn wedi'i sefydlu yn y practis i hyrwyddo ac amddiffyn lles plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl. Gwelsom sampl o gofnodion hyfforddi a oedd yn dangos bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn plant ac oedolion.

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo y gallent leisio unrhyw bryderon a oedd yn ymwneud â'r gwaith wrth staff uwch y practis, a'u bod yn hyderus y byddai'r rhain yn derbyn sylw.

Gofal effeithiol

Gwelsom fod tîm y practis yn ymroddedig i ddarparu gofal diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion.

Gwelsom fod y practis wedi cynnal ychydig o archwiliadau i fonitro ansawdd a diogelwch y gofal a'r driniaeth a ddarperir i gleifion. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis gyflwyno system archwilio drylwyr er mwyn sicrhau bod ystod o archwiliadau clinigol yn cael eu cynnal a bod cynlluniau gwella'n cael eu datblygu a'u monitro yn rhan o'r gweithgarwch gwella ansawdd. Rydym wedi nodi rhai meysydd y dylid cynnal archwiliad ar eu cyfer uchod, yn benodol cydymffurfiaeth â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, cofnodion cleifion, ac adolygiadau gan gymheiriaid.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis gynnal system o archwiliadau clinigol gyda'r bwriad o nodi meysydd i'w gwella yn rhan o weithgarwch y practis i wella ansawdd. Dylid datblygu a monitro cynlluniau gwella fel bo'n briodol.

Gwnaethom ystyried sampl o gofnodion deintyddol cleifion er mwyn asesu ansawdd y cofnodion. At ei gilydd, roedd y nodiadau yn ddigon manwl. Fodd bynnag, gwnaethom nodi rhai themâu cyffredin y dylid eu gwella. Roeddent fel a ganlyn:

- Nid oedd hanes meddygol cleifion wedi'u cydlofnodi gan yr orthodontyddion bob amser i gadarnhau eu bod wedi'u gwirio yn ystod pob apwyntiad.

- Nid oedd hanes cymdeithasol cleifion wedi'i gofnodi'n gyson, e.e. hunan-barch a hyder, y gellid ei ddefnyddio fel ffordd o fesur canlyniadau i gleifion.
- Nid oedd y rheswm dros bresenoldeb claf a/neu dros gyflwyno cwyn wedi'i gofnodi'n gyson.
- Roedd cydsyniadau gwybodus cleifion wedi'u cofnodi mewn modd anghyson, a oedd yn golygu ei bod yn anodd canfod a oedd cleifion wedi cael eu hysbysu'n llawn am beryglon a manteision y driniaeth.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r orthodontyddion sy'n gweithio yn y practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod cofnodion cleifion sy'n cael eu cwblhau ganddynt yn cael eu cynnal yn unol â gofynion rheoliadol a'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.

Yn ogystal â hyn, nid oedd y rheswm dros gymryd sganiau pelydr-X a chanfyddiadau'r orthodontyddion a gafwyd ganddynt wedi cael eu cofnodi yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r orthodontyddion sy'n gweithio yn y practis sicrhau eu bod yn cofnodi'r cyfiawnhad dros gymryd sganiau pelydr-X a'u canfyddiadau yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Dangoswyd strwythur rheoli ac iddo linellau eglur o adrodd ac atebolrwydd. Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan holl dîm y practis. Dywedodd y staff wrthym hefyd eu bod yn cael y cyfle i fynychu hyfforddiant perthnasol a bod y tîm rheoli yn eu cynorthwyo a'u hannog.

Roedd rheolwr practis, a oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd, yn cynorthwyo perchennog y practis. Pan nodwyd meysydd i'w gwella, dangosodd y perchennog, y rheolwr practis a'r orthodontyddion eu bod yn barod ac yn ymroddedig i fynd i'r afael â'r mater yn ddi-oed.

Yn ystod sgysiau gyda'r staff oedd yn gweithio ar ddiwrnod ein harolygiad, gwelwyd eu bod o'r farn eu bod yn cael digon o gefnogaeth gan y rheolwr practis a'r tîm practis ehangach yn eu swyddi. Gwelsom hefyd fod y staff yn bendant ac yn wybodus ynghylch eu gwahanol gyfrifoldebau. Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo bod cyfathrebu da o fewn y practis. Cynhaliwyd cyfarfodydd yn rheolaidd, a nodwyd unrhyw wybodaeth yr oedd angen ei rhannu rhwng cyfarfodydd mewn llyfr cyfathrebu, a oedd ar gael i'r holl staff. Cadarnhaodd y staff fod hyn yn gweithio'n dda a'i fod yn rhoi'r wybodaeth berthnasol ddiweddaraf i'r practis cyfan.

Gwelsom fod ystod o bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol ar waith gyda'r nod o sicrhau diogelwch staff a chleifion. Roedd angen adolygu a diweddarau rhai o'r rhain er mwyn sicrhau bod polisiâu'n cyfeirio at ganllawiau a oedd yn berthnasol yng Nghymru, yn benodol Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Gwelsom dystysgrifau hyfforddi a oedd yn dangos bod staff wedi mynychu hyfforddiant ar bynciau a oedd yn berthnasol i'w swyddi. Cadarnhaodd y staff hefyd eu bod yn cael cyfleoedd i ddilyn hyfforddiant. Gwelsom dystiolaeth o staff yn derbyn arfarniad o'u gwaith bob blwyddyn.

Gwelsom fod y staff clinigol wedi cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer ymarfer ac roedd yswiriant indemniad ar waith. Roedd cofnodion ar gael oedd yn dangos bod y staff wedi derbyn brechiadau rhag Hepatitis B i amddiffyn eu hiechyd eu hunain ac iechyd cleifion yn erbyn heintiau.

Roedd yr orthodontyddion a oedd yn gweithio yn y practis yn darparu gwasanaethau orthodontig preifat. Roedd pob orthodontydd namyn un yn arddangos ei dystysgrif gofrestru AGIC, fel sy'n ofynnol dan reoliadau deintyddiaeth breifat. Roedd cais wrthi'n cael ei wneud am un dystysgrif.

Atgoffwyd y practis bod rhaid arddangos y dystysgrif gofrestru AGIC ar ôl ei derbyn. Cytunodd y practis i wneud hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i bob orthodontydd sy'n gweithio yn y practis ac sydd wedi'i gofrestru i wneud triniaeth orthodontig breifat arddangos ei dystysgrif gofrestru AGIC.

Nid oedd tystysgrifau cyfredol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gael ar gyfer pob orthodontydd a oedd yn gweithio yn y practis. Yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat, mae'n ofynnol i bob orthodontydd sy'n darparu gwasanaethau orthodontig preifat yng Nghymru feddu ar dystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'i chyflwyno o fewn y tair blynedd diwethaf. Cytunodd y practis i wneud hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i bob orthodontydd sy'n gweithio yn y practis ac sydd hefyd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu gwasanaethau orthodontig preifat feddu ar dystysgrif gyfredol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a'i chyflwyno i AGIC i'w harchwilio.

5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis orthodontig gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd Newport Orthodontic Centre yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn y practis, gan gynnwys amserlenni ar gyfer hynny.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i'r problemau a nodir yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynglŷn â'r materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r practis yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu ddeintyddol/orthodontig barhaus.

6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal Newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal



Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008⁵ a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.⁶ Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol)

⁵ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made>

⁶ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made>

2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau â staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Trafodaethau â staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan fo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol ar ddiwedd pob arolygiad er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Tynnir sylw'r practis deintyddol a'r bwrdd iechyd lleol at unrhyw bryderon brys sy'n codi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A'r adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

Atodiad A

Practis Orthodontig: Cynllun Gwella

Practis: Newport Orthodontic Centre

Dyddiad yr Arolygiad: 11 Ionawr 2017

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Ansawdd Profiad y Claf					
	<i>Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.</i>				
Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol					
Tudalen 9	Rhaid i berchennog y practis sicrhau bod y gorchudd llawr yn cael ei selio rhwng y cypyrddau a'r waliau (neu wneud trefniadau priodol eraill) i atal dŵr, llwch a sbwriel rhag casglu yn y rhan o'r llawr sydd heb ei selio	Safonau lechyd a Gofal, Ebrill 2015, Safon 2.9 Rheoliadau	Bydd y gorchudd llawr yn Ystafell Driniaeth Un yn cael ei selio rhwng y cypyrddau a'r waliau. Bydd Ystafell Driniaeth Dau yn cael ei hailwampio'n llwyr yn 2017	Hannah Jones Hannah	Ebrill 2017 Medi 2017

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	<p>mewn dwy ystafell driniaeth.</p> <p><i>Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05 (Diwygiad 1)</i></p>	<p>Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)</p> <p>Rheoliad 14</p>	<p>er mwyn bodloni safonau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1).</p>	<p>Jones</p>	
Tudalen 9	<p>Dylai perchennog y practis osod carped newydd yn yr ystafell driniaeth yn unol â safonau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1).</p> <p><i>Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05 (Diwygiad 1)</i></p>	<p>Safonau Iechyd a Gofal, Ebrill 2015, Safon 2.9</p> <p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)</p> <p>Rheoliad 14</p>	<p>Bydd y carped yn cael ei dynnu oddi yno a bydd un newydd yn cael ei osod yn ei le yn rhan o'r gwaith ailwampio yn 2017 er mwyn bodloni safonau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1).</p>	<p>Hannah Jones</p>	<p>Medi 2017</p>
Tudalen 9	<p>Rhaid i'r practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod y staff yn cydymffurfio â'r canllawiau a amlinellir yn nogfen ganllaw</p>	<p>Safonau Iechyd a Gofal, Ebrill 2015, Safon 2.4</p>	<p>Rydym wedi archebu'r sribedi a argymhellwyd yn ystod ein harolygiad ar gyfer y peiriant uwchsonig, ac mae'r rhain bellach yn cael eu defnyddio.</p>	<p>Hannah Jones</p>	<p>Gweithredwyd fis Ionawr 2017 ac yn barhaus</p>

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	<p>Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1) o ran:</p> <ul style="list-style-type: none"> cynnal llyfrau cofnodion o'r profion a'r gweithdrefnau ar y peiriant uwchsonig <p><i>Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05 (Diwygiad 1)</i></p>		<p>Mae hyfforddiant mewnol mewn dadheintio a Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 wedi'i drefnu ar gyfer 23 Chwefror 2017.</p>		
Tudalen 10	<p>Rhaid i'r practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod:</p> <ul style="list-style-type: none"> pecyn llawn a ddefnyddir mewn achos brys ar gael yn y practis bob amser gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal ar gyfer yr offer a ddefnyddir mewn achos brys <p>Mae hyn yn unol â'r safonau sicrhau ansawdd a nodir gan y Cyngor Dadebru (DU).</p> <p><i>Y Cyngor Dadebru (DU), Safonau Ansawdd ar gyfer arfer a hyfforddiant adfywio cardio-</i></p>	<p>Safonau Iechyd a Gofal, Ebrill 2015, Safon 2.9</p> <p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)</p> <p>Rheoliad 14</p>	<p>Mae rhestr wirio wythnosol yn hytrach nag un misol ar waith erbyn hyn er mwyn sicrhau bod pob pecyn a chyfarpar a ddefnyddir mewn achosion brys yn gyfredol.</p>	Hannah Jones	Gweithredwyd fis Ionawr 2017 ac yn barhaus

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	<i>pwlmonaidd, Gofal Sylfaenol</i>				
Tudalen 11	<p>Dylai'r practis wneud trefniadau addas er mwyn sicrhau bod diffibriliwr allanol awtomatig ar gael i'r staff a'u bod yn gallu ei ddefnyddio'n ddiogel pan fo hynny'n ofynnol yn ystod argyfwng.</p> <p><i>Y Cyngor Dadebru (DU), Safonau Ansawdd ar gyfer arfer a hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd, Gofal Sylfaenol</i></p>	<p>Safonau lechyd a Gofal, Ebrill 2015, Safon 2.9</p> <p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)</p> <p>Rheoliad 14</p>	Bydd y practis yn prynu diffibriliwr.	Hannah Jones	Mae hyn wedi'i drefnu. Chwefror 2017
Tudalen 11	<p>Rhaid i'r practis hysbysu'r Awdurdod Gweithredol lechyd a Diogelwch o'r defnydd o offer radiograffig ar y safle.</p> <p><i>Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999</i></p> <p><i>Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000</i></p>	<p>Safonau lechyd a Gofal, Ebrill 2015, Safon 2.9</p>	Mae copi o'r llythyr a dderbyniwyd gan yr Awdurdod Gweithredol lechyd a Diogelwch wedi'i anfon at AGIC i gadarnhau ein bod yn defnyddio offer radiograffig.	Hannah Jones	Gweithredwyd a chwblhawyd Ionawr 2017

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Tudalen 12	<p>Dylai'r practis gynnal system o archwiliadau clinigol gyda'r bwriad o nodi meysydd i'w gwella yn rhan o weithgarwch y practis i wella ansawdd. Dylid datblygu a monitro cynlluniau gwella fel sy'n briodol.</p>	<p>Safonau lechyd a Gofal, Ebrill 2015, Safon 3.3</p> <p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)</p> <p>Adran 16A (1)</p>	<p>Rydym wedi amserlennu trafod archwiliadau yn ein cyfarfodydd staff misol, a byddwn yn cwblhau dau archwiliad y flwyddyn.</p>	<p>Hannah Jones</p>	<p>Gweithredwyd fis Chwefror 2017 ac yn barhaus</p>
Tudalen 13	<p>Rhaid i'r orthodontyddion sy'n gweithio yn y practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod cofnodion cleifion sy'n cael eu cwblhau ganddynt yn cael eu cynnal yn unol â gofynion rheoliadol a'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.</p> <p><i>Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm</i></p>	<p>Safonau lechyd a Gofal, Ebrill 2015, Safon 3.5</p> <p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)</p>	<p>Cafodd hyn ei ddilyn ar unwaith gan yr holl glinigwyr.</p>	<p>Hannah Jones</p>	<p>Ar unwaith ac yn barhaus</p>

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	<i>Deintyddol, Safonau 3 a 4</i>	Rheoliad 14			
Tudalen 13	<p>Rhaid i'r orthodontyddion sy'n gweithio yn y practis sicrhau eu bod yn cofnodi'r cyfiawnhad dros gymryd sganiau pelydr-X a'u canfyddiadau yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.</p> <p><i>Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 4.1</i></p>	<p>Safonau Iechyd a Gofal, Ebrill 2015, Safon 3.5</p> <p>Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000</p>	Cafodd hyn ei ddilyn ar unwaith gan yr holl glinigwyr.	Hannah Jones	Ar unwaith ac yn barhaus
Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth					
Tudalen 15	Rhaid i bob orthodontydd sy'n gweithio yn y practis ac sydd wedi'i gofrestru i wneud triniaeth orthodontig breifat arddangos ei dystysgrif gofrestru AGIC.	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)</p> <p>Rheoliad 4</p>	Dechreuodd orthodontydd newydd yma ym mis Ebrill 2016 ac nid oedd wedi gwneud unrhyw driniaethau preifat cyn hynny. Gwnaed cais am dystysgrif gofrestru ym mis Rhagfyr 2016 ac rydym yn aros iddi gael ei hanfon.	Hannah Jones	Parhaus. Aros am dystysgrif.

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Tudalen 15	Rhaid i bob orthodontydd sy'n gweithio yn y practis ac sydd hefyd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu gwasanaethau orthodontig preifat feddu ar dystysgrif gyfredol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a'i chyflwyno i AGIC i'w harchwilio.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd) Rheoliad 13, Atodlen 2	Bydd pob orthodontydd yn llofnodi ffurflen datganiad blynyddol yn cadarnhau nad oes unrhyw newid i'w statws gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, ac yn cytuno mai eu cyfrifoldeb nhw yw hysbysu'r rheolwr practis ar unwaith os oes unrhyw newidiadau.	Hannah Jones	Ar unwaith ac yn barhaus

Cynrychiolydd y Practis:

Enw (llythrennau bras): Hannah Jones

Teitl: Rheolwr Practis

Dyddiad: 21 Chwefror 2017